## Help gennym ni

**Cysylltwch â Chyngor Sir Fynwy ar 01633 644644** os hoffech gael help gyda'r canlynol:

- Iechyd yr Amgylchedd;
- Priffyrdd a Llifogydd;
- Ailgylchu a Gwastraff;
- Tai;
- Safonau Masnach;
- Y Dreth Gyngor/Cyfraddau Busnes;
- Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar Dudalennau Rheoli Perygl Llifogydd CSF

www.monmouthshire.gov.uk/flood-risk-management/

## RHESTR WIRIO

- Ffoniwch eich cwmni yswiriant a chadwch gofnod o bob galwad / gohebiaeth;
- Cofnodwch a thynnwch luniau o'r holl ddifrod yn sgil y lifogydd;
- Peidiwch â chael gwared ar unrhyw eitemau a ddifrodwyd gan lifogydd nes bod eich cwmni yswiriant yn dweud y gallwch wneud hynny.
- Sicrhewch bod eich cyflenwad nwy / trydan wedi'i wirio gan weithiwr proffesiynol;
- Gwiriwch fod eich cartref yn ddiogel os caiff ei adael heb neb i ofalu amdano;
- Dechreuwch atgyweiriadau unwaith y cytunir arnynt gyda'ch cwmni yswiriant.

## Rhifau Cyswllt Defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Argyfyngau** | **999** |
| **Holl Adrannau'r Cyngor drwy:** | |
| **Cyngor Sir Fynwy** | 01633 644644 |
| **Heddlu Gwent** | 101 / 01633 838111 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 01443 232000 |
| **Argyfyngau Nwy** | 0800 111 999 |
| **Rhif Argyfwng Toriad Pŵer** | 105 |
| **Argyfyngau Dŵr a Charthffosiaeth** | 0800 052 0130 |
| **Cymdeithas Yswirwyr Prydain** | 020 7600 3333 |

## Am Fwy O Wybodaeth

**Cyfoeth Naturiol Cymru** 0300 065 3000

www.naturalresources.wales/flooding

**Fforwm Llifogydd Cenedlaethol** 01299 403055

www.nationalfloodforum.org.uk

**Cyngor Ar Bopeth**

www.citizensadvice.org.uk

0800 702 2020

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

phw.nhs.wales

02920 227744

**FloodRe**

www.floodre.co.uk

**The Blue Pages – Cyfeiriadur Llifogydd**

www.bluepages.org.uk/

monmouthshire
sir fynwy

# BETH I'W WNEUD OS YW EICH CARTREF WEDI DIODDEF LLIFOGYDD



**MAE'R DAFLEN HON AR GYFER TRIGOLION SIR FYNWY SYDD WEDI CAEL EU HEFFEITHIO GAN LIFOGYDD**

## BYDDWCH YN OFALUS

Gall llifogydd fod wedi achosi difrod strwythurol i'ch eiddo. Argymhellir y dylech ailfeddiannu'ch cartref ond ar ôl iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr a'i ganiatáu i sychu.

**Os oes gennych yswiriant, cysylltwch â'ch Yswiriwr. Os ydych yn rhentu eich eiddo, cysylltwch â'ch landlord a'ch cwmni yswiriant ar gyfer eich cynnwys.**

- Tynnwch luniau a/neu ffilm fideo o'r difrod, a nodwch lefel y dŵr uchel ar y waliau er mwyn cyfeirio ato.
- **Peidiwch â chael gwared ar unrhyw eitemau a ddifrodwyd gan lifogydd a pheidiwch â gwneud unrhyw waith clirio neu atgyweirio nes bod eich yswiriwr wedi cymeradwyo.**
- Cadarnhewch gyda'ch cwmni yswiriant y bydd yn talu am unrhyw wasanaethau/offer y gallai fod eu hangen arnoch.
- Gwiriwch fod eich cartref yn ddiogel. Peidiwch â gadael drysau heb eu cloi tra bod eich cartref heb oruchwyliaeth.
- Gall pobl alw fel masnachwyr. Os nad ydych yn eu hadnabod, gofynnwch am brawf adnabod. Mae pob aelod o staff nwy, bwrdd trydan, yr Awdurdod Dŵr a'r Cyngor yn cario cerdyn adnabod. Gwiriwch y tystlythyrau bob amser a pheidiwch â thalu ymlaen llaw.
  Gall dŵr llifogydd gynnwys carthion a chemegau - defnyddiwch ddillad amddiffynnol wrth glirio neu lanhau eich cartref - esgidiau glaw, menig a throswisg.



### Cyngor Diogelwch Nwy/Trydan

- Diffoddwch eich cyflenwad nwy a thrydan a **PHEIDIWCH** â'u troi yn ôl ymlaen nes iddynt gael eu gwirio gan weithiwr cymwys.
- Gallai llifddwr fod wedi effeithio ar weithrediad diogel eich offer nwy. Mae'n hanfodol bwysig, am resymau diogelwch, i beiriannydd cofrestredig 'Gas Safe' archwilio'r offer.



- Os oes unrhyw un o'r offer cyflenwi trydan wedi'i foddi, cysylltwch â'ch cyflenwr trydan i roi gwybod am yr amgylchiadau ac i ofyn am eu cyngor.
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl wifrau yn eich cartref, o'r mesurydd, wedi'u gwirio gan drydanwr cymwys cyn i'r prif switsh gael ei droi yn ôl ymlaen.

### Sychu Eich Eiddo

- Cyn dechrau glanhau'ch eiddo, mae angen tynnu unrhyw ddŵr llonydd sy'n weddill. Mae'n bosibl y gall Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wneud hyn ar eich rhan, er efallai y codir tâl. Fel arall, gellir llogi pympiau gan gyflenwyr lleol — edrychwch yn eich llyfr ffôn lleol am rifau.
- Os oes gennych wres canolog nwy neu olew a'i fod wedi'i wirio gan beiriannydd, trowch y peiriant ymlaen. Cadwch y thermostat rhwng 20-22 gradd ar gyfer sychu'n gyson.
- Mae awyru da yn hanfodol i ganiatáu i'r lleithder ddianc. Cadwch ddrysau a ffenestri ar agor cymaint â phosibl yn ystod y dydd. Gallwch hefyd ddefnyddio dadleithyddion i helpu i gael gwared ar anwedd dŵr.
- Lle bu llifogydd difrifol, mae sychu eiddo yn debygol o gymryd sawl mis



### Glanhau eich Cartref ar ôl Llifogydd

- Y ffordd fwyaf effeithiol o atal haint yw golchi'ch dwylo ar ôl trin unrhyw beth sydd wedi bod mewn cysylltiad â dŵr llifogydd neu slwtsh a silt.
- Peidiwch â defnyddio peiriant golchi gan ei fod yn ffrwydro deunydd halogedig i'r aer.
- Os yn dod ar draws cnofilod marw, defnyddiwch fenig i'w trin a'u gwaredu mewn bagiau
- Symudwch ddodrefn meddal a ffitiadau sydd wedi'u difrodi a thu hwnt i'w hatgyweirio.
- Tynnwch gymaint o silt a dŵr budr â phosib.
- Golchwch bob arwyneb gyda dŵr poeth â sebon tan eu bod wedi eu glanhau a diheintio pob arwyneb gyda diheintydd gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Dylid golchi mannau paratoi bwyd, cypyrddau bwyd ac oergelloedd â dŵr poeth â sebon a'u diheintio gan ddefnyddio cannydd. Cael gwared ar unrhyw fyrddau ac offer pren
- Gwaredwch yr holl fwyd sydd wedi dod i gysylltiad â dŵr llifogydd, gan gynnwys unrhyw beth sydd wedi'i ddadmer.
- Gadewch i bob arwyneb sychu - bydd hyn hefyd yn helpu i ladd germau.
- Cysylltwch â thîm Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Fynwy am gyngor pellach.

### Tai Dros Dro

Efallai y bydd angen i chi symud i lety dros dro tra bod eich eiddo yn cael ei atgyweirio. Siaradwch â'ch cwmni yswiriant i ddarganfod pa opsiynau sydd gennych. Os nad oes gennych yswiriant, efallai y gall Cyngor Sir Fynwy eich cynorthwyo.

### Gwaredu Bagiau Tywod

Os ydych chi wedi cael bagiau tywod gan Gyngor Sir Fynwy, yna eich cyfrifoldeb chi nawr yw cael gwared arnynt neu eu storio rhag llifogydd yn y dyfodol.